# LLOYD, CHARLES (bu farw 1698), o Faesllwch ym Maesyfed, sgwïer a henuriad Annibynnol

**Enw:** Charles Lloyd
**Dyddiad marw:** 1698
**Priod:** Anne Lloyd
**Plentyn:** Lewis Lloyd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** sgwïer a henuriad Annibynnol
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Perchnogaeth Tir; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
**Awdur:** Thomas Richards

Un o amddiffynwyr enw da Vavasor Powell yn yr *Examen et Purgamen*, 1654, ac arwyddo'r *Word for God*, yr ymosodiad a wnaed ar Ddiffynwriaeth Cromwell yn 1655. Ym mis Awst 1672 wele Henry Maurice yn dod heibio iddo i gael sgwrs, ac yn 1675 dyry Maurice enw Lloyd i lawr fel un o henuriaid eglwys Annibynnol Brycheiniog. Ef oedd un o'r 'Dissenters,' fel Richard Edwards o Nanhoron a Jenkin Jones o Gilgerran, a enwyd yn 1687 fel gw r tebyg o rwyddhau ffordd y declarasiwn newydd ar ryddid crefyddol, ond nid oes unrhyw brawf iddo gael ei rwydo gan ragrith y brenin. Yn union wedi dyfod Deddf Goddefiad i rym yn 1689, penderfynodd Lloyd roddi darn o'i dir yn sir Faesyfed i godi capel arno, capel Maesyronnen, sef y capel cyntaf a godwyd gan yr Annibynwyr yng Nghymru. Yn niwedd ei oes syrthiodd i brofedigaeth gyda'r awdurdodau eglwysig yn Aberhonddu drwy briodi'r trydydd tro, â merch i frawd ei ail wraig; ond ni ddigwyddodd dim byd effeithiol, canys cyfeirir ati fel 'my dear wife Anne ' yn ei ewyllys olaf yn 1696. Teifl yr ewyllys hon lawer o oleuni ar ei gysylltiadau priodasol (trwy'r ail a'r drydedd wraig) â theulu Piwritanaidd Watkinsiaid y Sheephouse, ond dim paham y gelwid ef am gyfnod yn ' Charles Lloyd of Gwernyfed ': rhaid oedd aros am ysgrif Idris Davies yn *Y Dysgedydd* am 1939, 339, cyn deall mai yn y 'dower house' yno y trigai gyda'i wraig gyntaf, gweddw un o'r meibion.

Yr oedd Charles Lloyd yn frawd i William Lloyd o'r Wernos ac i Walter Lloyd o'r Felindre, ill tri yn disgyn o Lwydiaid Crai a Cherrig Cadarn.

### LEWIS LLOYD

Mab Charles Lloyd. Daeth yn farsiandwr mawr yn Llundain, gan brynu tiroedd lawer ym Mrycheiniog a Maesyfed, a dal yn Anghydffurfiwr selog fel ei dad. Yr oedd yn un o brif sylfaenwyr y 'Congregational Fund' a sefydlwyd yn Llundain yn 1695 i gynorthwyo achosion gweiniaid yr enwad, ac yn niwedd ei oes dibynnid llawer arno gan y Dr. John Evans wrth adeiladu y *'Lists' Ymneilltuol*. Yn ei ewyllys olaf (27 Mawrth 1714-5) dyry siars arbennig nad oedd neb, o'i deulu ef ei hun nac arall, i ymyrryd yn y dim lleiaf â'r tir y safai capel Maesyronnen arno, heb dalu dirwy drom a fyddai'n ddigon i godi capel newydd yn ei le. Bu farw yn 1717, a phrofwyd ei ewyllys ar 21 Hydref y flwyddyn honno.

## Awdur

**Thomas Richards**, (1878 - 1962)

## Ffynonellau


*Llawysgrif Harleian Manuscript yn yr Amgueddfa Brydeinig* 4181, ff. 129b, 130

*Broadmead Records* (1847, 1865) Add. B. 512

*Llawysgrif Rawlinson yn Llyfrgell Bodlean, Rhydychen* A. 139A, 155

Idris Davies, 'Dyddiau cynnar Annibyniaeth ym Mrycheiniog a Maesyfed,' *Y Cofiadur*, 1946, 1-63, passim

Isaac Thomas, 'Y Gronfa Gynulleidaol ac Annibynwyr Cymru,' *Y Cofiadur*, 1958, 5-6, 8

*Transactions of the Congregational Historical Society*, v, 134-48

*Llawysgrifau Garthewin yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor* (U.C.N.W.) 2182-4

P.P.C. 145 Lort (ewyllys Charles Lloyd), P.P.C. 193 Whitfield (ewyllys Lewis Lloyd)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732698


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu